- High fixed costs of maintaining large residential sites means that income from day visits just isn't sustainable. Often the costs of bringing operations online are not balanced by what would be recovered by income from day visits. i.e., a further loss would be sustained.



It simply isn't fair to place restrictions on a business that render them unable to trade and not financially compensate them for this or only financially compensate them along with other businesses that have not faced the same harsh restrictions.

The ERF 3 could have been supportive for this sector had it been managed effectively however this was not the case. The closure of the ERF 3 within 30 hours of opening and the lack of priority for those who were more adversely affected has seen some businesses make more money from government support than they would have gained from their normal income. This is so infuriating and frustrating for those honest businesses who are struggling and who are desperately trying to keep staff employed.

I have been informed in response to a letter to Ms Kirsty Williams that £455,000 was distributed in the ERF 1, 2 and 3 to support outdoor education centres in Wales. I can also see that out of the 21 centres receiving this funding that £363,000 was allocated to one organisation. Is this figure part of the £455,000 if so this leaves approximately £4600 each for the remaining 20. A sum which would likely not cover 1 month's fixed costs. Many centres were also ineligible for these rounds of funding. Even if the one organisation getting £363,000 is not included in the £455,000 then there is a large discrepancy here in the support being offered.

Being that Outdoor education is so important to Wales' rural economies and to education. I fail to understand the reticence to support these establishments.

Residential Outdoor centres bring substantial income to the Welsh economy. They also play a large role in promoting Wales to wider parts of the UK, teaching about its history, geography, culture and language. Centres are often custodians of Wales' natural landscapes and protected spaces, taking on the role of maintenance, management and access. They also play a large part in creating a love of Wales with many children and families returning to the area throughout their lifetimes for visits and holidays.

I include a breakdown of the provision across Wales  
(For the breakdown. Please see Appendix 1)

### **Questions:**

The situation for outdoor education centres has been the same throughout the pandemic, whether in lockdown or not they cannot operate due to government restrictions. Being able to open for day activities doesn't sustain us. It is like pubs opening and not serving alcohol. Furthermore, it is simply impossible for most. We would be pleased if you would consider the following:

1. Why was support not given for the months July, Aug, Sept, Nov and only for the firebreak lockdown in October and Dec to Jan, Feb, Mar when residential outdoor Education centres faced continual restrictions? Could these payments be backdated?
2. When business come out of lockdown outdoor education centres will still not be able to operate, due to both Westminster and Welsh restrictions. Will support continue in the form of a lockdown restrictions grant until the restrictions are lifted for our sector?
3. If the job retention scheme is not continued many centres will have to make staff redundant. What provision is there to compensate for this in light of continuing restrictions. I.e. What case are the WG making for the continuation of furlough for businesses still facing restrictions? Or what provision is the WG making to support jobs in those businesses still unable to trade.

4. Will the Business Rates Relief still be available to residential outdoor education centres as long as they face restrictions.

3. After being closed for over a year many centres face “start up costs” along with costs for becoming “Covid secure”. What funding will there be to help with these costs?

4. Looking forward, residential outdoor education centres offer the Welsh Government a unique opportunity to support pupils’ recovery out of lockdown and from this pandemic. With children’s health, fitness and mental wellbeing of utmost concern, along with the need for children to reengage with learning, we suggest a government funded summer residential camp scheme utilising the skills expertise and facilities that are already on our doorstep. An opportunity for the Government to give something back to local Welsh children whilst also protecting these viable businesses and their local supply chains for the future.

## Appendix 1.

### NORTH WALES

Centre Name	Area	Bed capacity
FSC Rhyd-y-Creuau	Aberconwy	80
Lledr Hall	Aberconwy	40
Marle Hall	Aberconwy	100
Nant BH	Aberconwy	55
Oaklands	Aberconwy	40
Plas Y Brenin	Aberconwy	50
Towers OEC	Aberconwy	70
Anglesey Outdoors	Anglesey	100
Conwy Centre	Anglesey	250
Arete Outdoor Centre	Arfon	100
Blue Peris	Arfon	70
Boulder Adventures	Arfon	40
Kent Mountain Centre	Arfon	50
Dolawen/E3 Adventures	Arfon	40
Pentrellyncymer OEC	Clwyd West	55
Bryntysillio	Clwyd South	65
Safe and Sound	Clwyd South	?
Arthog	Dwyfor Meirionnydd	100
CMC Adventure	Dwyfor Meirionnydd	90
Rhos Y Gwailau (RYG)	Dwyfor Meirionnydd	100
Plas Gwynant	Dwyfor Meirionnydd	55
Glan Llyn	Dwyfor Meirionnydd	250
Plas Caerdeon	Dwyfor Meirionnydd	50
Plas Dol y Moch	Dwyfor Meirionnydd	60
Red Ridge	Montgomeryshire	50

### SOUTH WALES

Centre Name	Area	Bed capacity
The Storey Arms OEC	Cardiff North	50
Park Wood Leisure	Merthyr	50
Black Mountain Adventure	Brecon and Radnor	?
Woodlands	Brecon and Radnor	50
Plas Pencelli	Brecon and Radnor	70
Hilston Park	Monmouthshire	50
Gilwern	Monmouthshire	50
Trewern	South Hereford	50
Pendarren House	Brecon and Radnor	50
Hampshire Mountain Centre	Brecon and Radnor	35

Tirabad	Brecon and Radnor	35
Longtown	South Hereford	40
Stackpole Centre	Carmarthen and S. Pembs	140
Kilvrough Manor		50
Tal Y Bont OEC	Powys	30

**P-05-1136 Dylid caniatáu i drigolion Cymru deithio i bysgota yr un fath â'n cymheiriaid yn Lloegr**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Matthew Davies, ar ôl casglu cyfanswm o 2,519 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae pysgotwyr Cymru wedi cael llond bol ar gael eu trin yn wahanol i'r rheini yn Lloegr.

Ar hyn o bryd, ni chaniateir i ni deithio'n lleol i wneud ymarfer corff. Caniateir i bobl Lloegr sy'n syrthio oddi fewn i haen 4 deithio, a dyna'r achos pan eu bod yn syrthio oddi fewn i haen 5, hyd yn oed.

Rydym ni fel pysgotwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19, ond mae pysgotwyr yn defnyddio'r amser hwn i gynnal eu lles meddyliol, eu gallu i ganolbwyntio ac i leihau eu lefelau o straen. Dylid rhoi'r hawl eto i bawb ymgymryd â'r gamp hon, sy'n cadw pellter cymdeithasol.

### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

<https://canalrivertrust.org.uk/enjoy-the-waterways/fishing/places-to-fish/seven-reasons-why-fishing-is-good-for-you#:~:text=Fishing%20reduces%20stress,stress%20disorder%20and%20othe r%20illnesses.>

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Abertawe
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1136  
Ein cyf/Our ref DET/00157/21

Janet Finch-Saunders MS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deisebau

1 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich gohebiaeth ynghylch deiseb i ganiatáu preswylwyr o Gymru i deithio at ddibenion pysgota.

Fel yr amlygwyd gan Brif Weinidog Cymru ar [19 Rhagfyr 2020](#), o 20 Rhagfyr ymlaen byddai Cymru'n symud i lefel rhybudd 4 a nodir yn ein Cynllun Rheoli cyhoeddedig. Y lefel hon yw'r lefel uchaf o gyfyngiadau. Yn anffodus, tra'n bod yn cydnabod yn llwyr pa mor bwysig yw ymarfer corff ar gyfer ein llesiant corfforol a meddyliol, mae ein rheoliadau ar gyfer lefel rhybudd 4 yn dweud bod yn rhaid inni gyd 'aros gartref' heblaw am resymau hanfodol. Mae hyn yn golygu bod pob atyniad dan do ac awyr agored yn gorfod cau. Nid yw gwneud gweithgareddau yn yr awyr agored, er ei fod yn fwy diogel, yn ddi-risg ac mae'n gwneud pobl i adael eu cartrefi pan nad yw'n hanfodol. Wrth iddi fynd yn oerach, tywyllach a gwlypach mae'r amodau ar gyfer y feirws yn gwella. Mae dull gweithredu Cymru yn ystod y cyfyngiadau 'aros gartref', sy'n seiliedig ar gyngor ymddygiadol arbenigol, yn mynnu y dylai pobl deithio cyn lleied â phosibl. Mae pob eithriad neu gonsesiwn i'r rheolau hyn mewn un ardal yn gwanhau'r neges honno a gallai arwain at gamddealltwriaeth ymhlith y boblogaeth sy'n rhoi bywydau mewn perygl. Dywed gwyddoniaeth wrthym mai'r hiraf yr ydym i ffwrdd o'n cartrefi, a'r pellaf yr ydym yn teithio, y mwyaf tebygol yr ydym o naill ai dod i gysylltiad â'r feirws neu ei drosglwyddo. Fel Llywodraeth rydym yn cymryd pob cam posibl i leihau'r risgiau ar yr adeg dyngedfennol hon, ac i sicrhau ein bod yn darparu neges gref a chyson er mwyn cadw Cymru'n ddiogel. Ni all Llywodraeth Cymru wneud sylwadau ar unrhyw reoliadau a wneir gan lywodraeth y DU.

Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chyfyngiadau yn seiliedig ar y data a'r wyddoniaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol i Gymru ac ar y cyngor diweddaraf gan ein cynghorwyr gwyddonol a meddygol ein hunain, er mwyn lleihau cyflymder trosglwyddo'r feirws. Drwy'r rheolau hyn, rydym yn ceisio cydbwysu pwysigrwydd lles meddyliol a chorfforol pobl, a'n heconomi, â'r angen i gadw pobl yn ddiogel a diogelu'r GIG.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 7?**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn ddifrifol iawn – mae'r feirws yn bresennol ym mhob un o'n cymunedau lleol. Mae ein GIG o dan bwysau. Rhaid inni gael mesurau cryf i reoli'r feirws ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae angen i bawb helpu hefyd, nid yn unig drwy ddilyn y rheolau ond drwy wneud newidiadau bach i'w harferion a'u bywydau beunyddiol a lleihau'r cyswllt sydd ganddynt â phobl eraill. Mae'r feirws hwn yn ffynnu ar gyswllt dynol – pryd bynnag y byddwn yn treulio amser gydag eraill neu'n agos at bobl eraill mae perygl y byddwn naill ai'n dal neu'n trosglwyddo'r coronafeirws. Byddwn yn lleihau'r risg hon, ac yn lleihau'r pwysau ar ein GIG, drwy effaith gronol yr holl newidiadau rydym wedi'u gwneud. Yr effaith gyfunol sy'n gwneud y gwahaniaeth, nid y risg a achosir gan unrhyw un gweithgaredd.

Rydym eisoes yn gweld rhai arwyddion cadarnhaol o'r cyfyngiadau symud, a chyda'r broses o gyflwyno'r brechiad yn mynd rhagddi'n dda rydym yn obeithiol o ganiatáu i bobl ailddechrau gweithgareddau fel pysgota unwaith eto – ond dim ond pan fydd y wyddoniaeth a'r data yn dweud wrthym ei bod yn ddiogel gwneud hynny.

Rydym yn llwyr gydnabod yr ymdrechion a'r aberth enfawr y mae'r cyhoedd a busnesau yng Nghymru wedi'u gwneud i gadw Cymru'n ddiogel. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd drwy ei Chynadleddau i'r Wasg ar Covid19 dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf.

Gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa bresennol o ran y rheoliadau.

Yn gywir



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

**P-05-1136 Allow Welsh residents to travel for fishing the same as our counterparts in England – Correspondence – Petitioner to the Committee, 18.02.21**

Good evening,

I am sorry that it has taken me time to get a response back to the committee but I wanted to research a little more before I did this reply.

The main reason for the petition was to bring us inline with our English counterparts for exercise. Even today people are out on the sea fishing in their boats or local waters.

Since the first lockdown in March myself and other fishery owners have been left alone with very very little financial help, absolutely nothing available for us. This of course led to the most recent petition.

We do not understand why the welsh government has taken these decisions based on the same scientific information that the English government receives.

At the time of writing this the petition has been signed by just under 2500 people. If I opened this up to exercise in general then I would guarantee a much broader signature list.

I am not one of these people that do not believe that the pandemic exists, infact the total opposite. I supply staff to the front line through another of my businesses and me myself am ultra cautious just incase I was to bring something back to my life limited son. However saying this fishing is one of the most relaxing, socially distant sport out there. It has the ability to make you focus, lower your stress levels and enhance your mental health.

There are various reports out about this from Angling trust and I have attached one here

<https://canalrivertrust.org.uk/enjoy-the-waterways/fishing/places-to-fish/seven-reasons-why-fishing-is-good-for-you#:~:text=Fishing%20reduces%20stress,stress%20disorder%20and%20other%20illnesses>

As you can see all we want is to be treated the same as our counterparts within England. If the science is there to stop this then please provide this evidence to us and Angling Cymru. Angling Cymru I am told have tried and tried and all they face is harsh criticism and hatred because the English government has allowed it and the



welsh government has not with no official statements showing why we cannot, all we face is a similar letter to the one that was sent in the reply from the committee.

Please help the fishermen/ fisherwomen and children in wales to maintain their mental health, allow fisheries to reopen with a strict covid-19 guidance and let's beat this together!!

Thank you for your time in reading this, if you would like to discuss further then please call me directly and I can explain every side to the story.

## Eitem 2.8

**P-05-1139 Dylid ymestyn rhyddhad treth stamp yn dilyn cyhoeddi rhagor o gyfyngiadau symud**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Oliver, ar ôl casglu cyfanswm o 79 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Ers atal y dreth stamp dros dro yng Nghymru, gwelwyd hwb i'r economi a chynnydd mewn trafodion eiddo. Drwy ymestyn y rhyddhad hwn a dod â'r trefniant i ben yn raddol, gellid osgoi cwmp disymwth yn y farchnad eiddo, fel sy'n debygol o ddigwydd os daw'r cymorth rhyddhad i ben yn sydyn. Efallai y gallai Llywodraeth Cymru ystyried trefnu bod y rhyddhad yn gymwys i unrhyw drafodion lle cafodd contractau eu cyfnewid cyn 31 Mawrth 2021, gan ganiatáu i unrhyw drafodion sydd eisoes yn yr arfaeth gael eu cwblhau o dan y trefniadau manteisiol.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

Rebecca Evans AS/MS  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1139  
Ein cyf/Our ref RE/00052/21

Janet Finch-Saunders MS  
Chair of the Petition Committee  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

8 February 2021

Dear Janet,

**Petition P-05-1139 Extend stamp duty relief following the announcement of a further lockdown**

Thank you for your email regarding the petition referenced above.

The petition suggests extending the current temporary Land Transaction Tax (LTT) reduction period applying to main rates beyond the end of March for transactions where exchange of contracts takes place before 31 March 2021.

LTT arises when a relevant property transaction is completed, or in relatively exceptional circumstances when it 'substantially performs'. An exchange of contracts is not an event triggering the payment of LTT. I recognise that the petition proposes a transitional rule similar to that used when rates are changed with immediate effect. I do not consider that such a transitional rule is appropriate in this case as the date on which the temporary tax reduction period is to end was announced on 14 July 2020. In contrast, the transitional rule recently provided ensured that people who had exchanged contracts could pay the rate they expected to at the point they exchanged contracts because the rate change was unknown to them but they had contractually committed to a transaction.

The temporary rules were introduced to help the housing market recover from the first lockdown and to support broader economic activity associated with home purchases. The written statement I issued on devolved taxes alongside my announcement of the draft Budget for next year made clear that in Wales we will revert to the pre-existing rules from 1 April 2021. That clear message, three months ahead of the end date, has provided clarity to both buyers and sellers of property to negotiate their transactions appropriately.

The petition refers to a potential "cliff-edge" when the temporary LTT rules expire on 31 March 2021. I have seen this expression used in many of the calls for an extension or for

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 77

transitional rules in relation to the UK Government's stamp duty land tax (SDLT) 'holiday'. The impacts of the current temporary reductions in SDLT are potentially as large as £15,000 (providing a zero liability to tax on properties costing up to £500,000) compared with £2,450 reductions in LTT (providing a zero liability to tax on properties costing up to £250,000). This means for SDLT, the potential tax saving amounts to up to 3% of the property purchase price, whereas in LTT the maximum saving is just under 1% of the property purchase price. For the situation in Wales with LTT, I do not consider that to amount to a "cliff-edge". Whilst some buyers may be upset to have missed out on a potential tax saving, a position I can understand, I do not consider the property market, or wider economy, will be adversely impacted in the absence of an extension of a change which was announced over 8 months earlier.

In its December 2020 report on Welsh Taxes Outlook, the Office for Budget Responsibility (OBR) says with regards to its property market forecast and its effects on LTT, that there will be a "significant fall in residential transactions this year (2020-21) to be followed by a sharp rebound in 2021-22, followed by modest growth thereafter."

Consequently I do not see a need to introduce a new form of relief for transactions which are still at the exchange of contract stage as at 31 March 2021.

Yours sincerely,



**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

## **P-05-1139 Extend stamp duty relief following the announcement of a further lockdown, Correspondence – Petitioner to Committee, 08.02.21**

Thank you for the response received from Rebecca Evan's in respect of the petition.

I think the ministers points are somewhat short sighted and are attempts to skirt the issues rather than actually address them. I would request my comments are passed on for review.

'(1) **An exchange of contracts is not an event triggering the payment of LTT**' - Although technically correct, buyers of new homes (we are an example) are contractually committed to proceed to completion or suffer the loss of 10% deposit. An exchange of contracts is a contractual commitment to purchase and is therefore also, a commitment to pay the tax due on that purchase.

(2) **The end date was announced in July and therefore a transitional period is not appropriate.** Although the end date was announced, what has not been considered is buyers of new homes where the period between exchange of contracts and completion can be lengthy (in our case, 9 months) further delays due to the pandemic has resulted in our timetable being shifted and the losses to us, significant. We are not the only buyers to be affected by the same situation and a continuation of the relief for buyers who contractually committed to a purchase in good time with the belief they may complete within the relief period is not something I would consider inappropriate but rather a reasonable proposal. A tapering of the relief to account for those who contractually committed to purchases well within the relief period should not be dismissed so easily

(3) **'The situation in Wales does not amount to a cliff edge'** - Sales are already falling through in Wales due to the looming deadline. The rush to purchase properties and complete within the relief period has undoubtedly provided a boost to the housing market, however, as sales collapse, that boom to the housing market is likely to be undermined and partially reversed if buyers withdraw. A withdrawal of sales commitments compounded by the end of tax relief which is likely to see the market slow down significantly is the definition of a cliff edge and one that will certainly occur. Although the minister proposes the market will bounce back, one thing is certain, the market will slow significantly. A bounce back is less certain but a tapering of relief may at least, ensure that buyers who have committed to purchasing, continue with those purchases and a slow reintroduction of the LTT may assist avoiding such a dead stop in the market.

It appears from the response that the minister feels enough has been done to forewarn buyers and sellers of the ending of the relief period. What is being ignored are those buyers who in plenty of time, committed to purchases (in our case, October 2020) but due to events outside of our control, we will not complete until June. We will have to find £5,000 to account for that or withdraw and risk losing our entire deposit. As first time buyers, neither option is a palatable one. We either go into further debt to pay the tax or lose many years of saving for a deposit.

Quite real consequences for a family who have worked extremely hard for many years to try and buy our first home. Given we are one of the purchasers that contributed to a buoyant housing market over the past 6 months, we feel somewhat duped and I'm sure there are many buyers like us who feel the same. Let down and paying a heavy price would sum up how we feel and I would encourage the minister to take on board those feelings from constituents, voters, the public, who are ultimately the ones whose lives change significantly based on whether we have supportive policies that focus on families and individuals or not.

Regards.



### **P-05-1111 Rhowch y £7 miliwn yn ôl yn y gronfa Trawsnewid Iechyd Meddwl**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dr Jen Daffin, ar ôl casglu cyfanswm o 255 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Cyhoeddwyd yr adroddiad Cadernid Meddwl o ganlyniad i ymchwiliad eang i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. Mae'n nodi bod angen brys i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, system gyfan ac ymyrraeth gynnar.

Mae dirfawr angen diwygio a moderneiddio gwasanaethau iechyd meddwl.

Bydd tynnu £7 miliwn o'r gronfa hon yn oedi'r newid hwn.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Yn 2018, llofnododd 93 o Seicolegwyr, Therapyddion, Cynghorwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru lythyr yn gofyn i Lywodraeth Cymru weithredu'r newidiadau a argymhellir yn adroddiad Cadernid Meddwl – <http://www.psychchange.org/support-the-mind-over-matter-report.html>

Mae'r pandemig byd-eang wedi effeithio ar bawb. Mae llawer ohonom wedi wynebu trallod oherwydd COVID-19, a bydd llawer yn parhau i'w wynebu. Fodd bynnag, bydd yr effaith cryn dipyn yn fwy ar bobl sydd hefyd yn wynebu unigedd, ansicrwydd am eu swyddi, tlodi bwyd, neu sy'n byw ar aelwyd gamdriniol neu aelwyd dan straen.

Mae blynyddoedd cynnar bywyd yn hanfodol, ond mae plant yn byw mewn amgylchiadau na allant eu newid. Ni allant feddwl eu ffordd allan o'u problemau; maent yn dibynnu ar yr oedolion a'r gymuned o'u cwmpas.

Enw arall ar y gronfa trawsnewid iechyd meddwl yw'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Y gronfa honno y cyfeirir ati yn y ddeiseb hon.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru





Eich cyf/Your ref P-05-1111  
Ein cyf/Our ref EM/00926/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

29 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i fyrdau iechyd fel y gallant ymateb i'r pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn sgil y pandemig. Fis Mawrth, gwnaethom ryddhau £3.5m o gyllid ar gyfer y chwe mis cyntaf o'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl (£7m yn gyfan gwbl). Cafodd y cyllid hwn ei ddyrannu ar draws pob bwrdd iechyd i sicrhau parhad gwasanaethau a'r hyblygrwydd a oedd ei angen bryd hynny.

Gwnaed yr ail ddyraniad o £3.5m yn ystod y flwyddyn i'r meysydd blaenoriaeth yn ein [Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#). Roedd hyn yn golygu bod cyllid ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed / cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc, gwasanaethau y tu allan i oriau / gwasanaethau mewn argyfwng, cymorth pellach ar gyfer gwasanaethau amenedigol, gwasanaethau anhwylderau bwyta ac i gynyddu mynediad at therapïau seicolegol.

Mae pob un o'r byrddau iechyd bellach wedi cael eu dyraniad llawn o'r £7m ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac mae'r cyllid hwn wedi'i ychwanegu at y prif ddyraniad GIG (o fewn y cyllid iechyd meddwl sydd wedi'i neilltuo) ar gyfer 2021-22.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**  
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**  
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Eitem 2.10

**P-05-1125 Dylai deisebau sydd â dros 5,000 o lofnodion fod yn destun dadl, nid cael eu hystyried ar gyfer dadl yn unig**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Martin Obbard, ar ôl casglu cyfanswm o 69 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Os oes gan ddeiseb gefnogaeth 5,000 neu fwy, nid oes rhaid iddi fod yn destun dadl yn y Senedd; cael ei 'hystyried' ar gyfer dadl yn unig y mae.

Holl reswm deisebau yw cyfleu llais y cyhoedd. Ar hyn o bryd, os yw deiseb yn cael ei chefnogi'n gryf gyda dros 5,000, dim ond cael ei 'hystyried' ar gyfer dadl y mae.

Mae'n amlwg bod deiseb gyda'r fath gefnogaeth o ddiddordeb i'r cyhoedd, ac felly fe gredaf y dylai fod yn destun dadl bob tro, i sicrhau bod barn y bobl yn cael ei hystyried.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Martin Obbard, deisebwr

09 Chwefror 2021

Annwyl Mr Obbard

**Deiseb P-05-1125 - Dylai deisebau sydd â dros 5,000 o lofnodion fod yn destun dadl, yn hytrach na chael eu hystyried ar gyfer dadl yn unig**

Diolch am gyflwyno'r ddeiseb uchod i'r Senedd. Rwy'n ymateb iddi gan mai'r Pwyllgor Deisebau sy'n gyfrifol am y prosesau ar gyfer trafod deisebau.

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn cynnal gwaith craffu ar bob deiseb sy'n casglu dros 50 o lofnodion. Cafodd y trothwy ar gyfer penderfynu a ddylai'r pwyllgor wneud cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn, ei gyflwyno gan y Pwyllgor Deisebau ym mis Mawrth 2017. Gwnaed hyn yn sgil ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes, sy'n gyfrifol am drefnu busnes y Cyfarfod Llawn. Cyn hynny, roedd deisebau ond yn cael eu trafod gan y Senedd gyfan os oedd y Pwyllgor Deisebau wedi llunio adroddiad arnynt yn seiliedig ar ei waith craffu manwl.



Ein nod wrth gyflwyno'r drefn hon oedd cynnig ffordd fwy uniongyrchol ac amserol i ddeisebau sy'n denu lefel uchel o gefnogaeth gan y cyhoedd gael eu trafod gan y Senedd lawn, heb iddynt orfod bod yn destun gwaith craffu gan bwyllgor yn gyntaf. Ar adeg ysgrifennu'r ohebiaeth hon, mae 19 o ddeisebau wedi'u trafod yn y Cyfarfod Llawn fel rhan o'r trefniadau hyn, ac rwy'n falch bod y broses hon wedi rhoi cyfle i nifer o faterion pwysig gael eu trafod yn y modd hwn. Mae manylion yr holl ddeisebau a drafodwyd gan y Senedd hon ar gael drwy'r linc a ganlyn: <https://deisebau.senedd.cymru/deisebau?state=debated>

Fodd bynnag, rwyf o'r farn ei bod yn gywir inni ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu a yw'n briodol cynnal dadl brydlon ar fater a godir gan ddeiseb, ac mae yna nifer o resymau pam nad yw'n ymarferol nac yn briodol cynnal dadl ar bob deiseb sy'n casglu'r nifer ofynnol o lofnodion. Er enghraifft:



- mae'n bosibl y bydd y mater a drafodir mewn deiseb wedi'i ddatrys ers cyflwyno'r ddeiseb, neu bod y cyd-destun wedi newid yn sylweddol;



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddDeisebau@senedd.cymru](mailto:SeneddDeisebau@senedd.cymru)  
 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddPetitions@senedd.wales](mailto:SeneddPetitions@senedd.wales)  
 0300 200 6565

- mae'n bosibl y bydd y mater eisoes wedi'i drafod yn ddiweddar, wedi'i godi mewn ffyrdd eraill neu wedi bod yn destun gwaith craffu gan un o bwyllgorau eraill y Senedd;
- mae'n bosibl y gellir cynnal gwaith craffu ar y mater o dan sylw yn fwy effeithiol, drwy waith craffu manwl gan y Pwyllgor Deisebau neu gan un o bwyllgorau eraill y Senedd; neu
- mae'n bosibl bod y ddeiseb wedi casglu cyfran sylweddol o'i llofnodion y tu allan i Gymru.

At hynny, capasiti cyfyng yn unig sydd gan y Senedd i drefnu dadleuon yn y Cyfarfod Llawn, ac mae yna nifer o alwadau ar y capasiti hwnnw, gan gynnwys dadleuon a gyflwynir gan bwyllgorau eraill, grwpiau gwleidyddol ac Aelodau unigol o'r Senedd. O ganlyniad, rydym yn ceisio defnyddio'n disgresiwn i sicrhau bod y system yn cael ei defnyddio i hwyluso'r gwaith craffu mwyaf effeithiol a phriodol ar y materion a godir drwy'r broses ddeisebu.

Yn olaf, mae'n bosibl eich bod eisoes yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deisebau wedi gwneud y penderfyniad anodd o gynyddu'r 'trothwy ar gyfer cynnal dadl' ers i chi gyflwyno'ch deiseb. Rhwng mis Mawrth 2017 a mis Tachwedd 2020, y trothwy ar gyfer trafod deiseb mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn oedd 5,000 o lofnodion. Fodd bynnag, ers 1 Rhagfyr 2020, mae'r trothwy hwn wedi cynyddu i 10,000 o lofnodion.

Mae'r pwyllgor yn dra ymwybodol o'r angen i rannu gwybodaeth glir er mwyn helpu i reoli disgwyliadau pawb sy'n manteisio ar y broses ddeisebu. Gwnaethom y penderfyniad hwn mewn ymateb i gynnydd sylweddol yn nifer y deisebau sydd wedi casglu nifer fawr o lofnodion ers canol y llynedd oherwydd, yn gynyddol, roeddem ond yn gallu trefnu dadleuon ar nifer gymharol fach o ddeisebau a oedd yn cyrraedd y trothwy blaenorol. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn hyd at ddiwedd tymor y Senedd hon, gyda'r bwriad o wneud argymhelliad cysylltiedig ar gyfer y Senedd nesaf.

Hyderaf fod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol o ran egluro'r prosesau sy'n helpu'r Pwyllgor Deisebau i benderfynu pa gamau i'w cymryd, ac edrychaf ymlaen at glywed unrhyw sylwadau eraill sydd gennych, a fydd yn helpu i lywio trafodaethau'r pwyllgor ar eich deiseb.

Yn gywir,



Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddDeisebau@senedd.cymru](mailto:SeneddDeisebau@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddPetitions@senedd.wales](mailto:SeneddPetitions@senedd.wales)

 0300 200 6565

## **P-05-1129 Mae angen cymhwyso mesurau deddfwriaethol nawr i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith i ddiddymu Lesddaliad**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Habberfield, ar ôl casglu cyfanswm o 425 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Ar 21 Gorffennaf 2020 cyhoeddwyd y tri adroddiad ynghylch llesddaliad a chyfunddaliad preswyl gan Gomisiwn y Gyfraith (gweler y manylion ychwanegol). Rydym o'r farn y dylai'r argymhellion o'r adroddiadau hyn gael eu gweithredu ar unwaith yng nghyfraith Cymru, heb oedi, er mwyn gwella bywydau dros 400,000 o lesddeiliaid Cymru. Mae dros wyth mlynedd ers i'r Alban arwain y ffordd a diddymu lesddaliad o'u tai, ac yn sgil yr adroddiad hwn mae gan y Senedd fandad clir, bellach, i gymhwyso mesurau deddfwriaethol.

### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

<https://www.lawcom.gov.uk/project/residential-leasehold-and-commonhold/>

Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith dri adroddiad gan argymhell diwygiadau i dri maes o fewn y gyfraith:

- (1.) rhyddfrenio lesddaliad, sef yr hawl i bobl sy'n berchen ar eiddo ar lesddaliad hir ("lesddeiliaid") brynu'r rhydd-ddaliad neu ymestyn eu lesddaliad
- (2.) yr hawl i reoli, sy'n hawl i lesddeiliaid gymryd yr awenau o ran rheoli eu hadeilad heb brynu'r rhydd-ddaliad
- (3.) cyfunddaliad, sy'n caniatáu perchnogaeth rhydd-ddaliadol fflatiau, gan gynnig ffordd arall o fod yn berchen ar eiddo sy'n osgoi diffygion perchnogaeth lesddaliadol.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru



Ein cyf/Our ref JJ/00274/21

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd,  
Y Pwyllgor Deisebau  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
[Deisebau@senedd.cymru](mailto:Deisebau@senedd.cymru)

1 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Ionawr ynghylch Deiseb P-05-1129, sy'n galw am fesurau deddfwriaethol nawr i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio'r system lesddaliadol yng Nghymru.

Rwyf eisoes wedi croesawu [adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio'r system lesddaliadol yng Nghymru a Lloegr](#) fel cam mawr tuag at newidiadau angenrheidiol ac rwyf ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o weithredu ar y cynigion hyn. Er hynny, yn ogystal ag adroddiadau Comisiwn y Gyfraith a thystiolaeth [adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ddiwygio lesddaliadau](#), rwyf hefyd yn disgwyl i'r ymchwil i brofiadau lesddeiliaid yng Nghymru gael ei gyhoeddi'n y dyfodol agos. Unwaith y byddaf wedi gweld yr holl dystiolaeth, byddaf yn cyhoeddi fy mwriadau ar gyfer gwneud lesddaliadau'n decach yng Nghymru.

Er fy mod yn deall y pryderon ynghylch yr alwad yn y ddeiseb hon i'r newidiadau hyn ddigwydd yn syth, fe wyddoch bod tymor y Senedd hon yn dirwyn i ben yn fuan, cyn yr etholiad, ac nid yw'n bosibl, o dan y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol, i ni gynnig a gweithredu deddfwriaeth o'r fath cyn diwedd y tymor hwn. Er y byddaf yn nodi fy mwriadau ar gyfer diwygio'r system lesddaliadol yn fuan, bydd yr weinyddiaeth nesaf, ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai, yn nodi ei hagenda ddeddfwriaethol ei hun, ac nid yw'n briodol i mi geisio rhagweld hynny ar hyn o bryd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 88**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n benderfynol o weithredu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ogystal â nifer o feysydd eraill sydd angen sylw yn y system lesddaliadol. Fe wnaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford, hefyd ddatgan yn glir ein bwriad i fwrw ymlaen â'r gwaith i ddiwygio'r system lesddaliadol a chyfunddaliadol yn ei [ddatganiad ar y rhaglen deddfwriaethol ar 16 Gorffennaf](#), gan gynnwys y materion hynny a fyddai angen mesurau deddfwriaethol lle bo hynny'n briodol.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

# Eitem 2.12

## P-05-1130 Dylai Llywodraeth Cymru ail-brynu ac adnewyddu Coleg Harlech

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sian Ifan, ar ôl casglu cyfanswm o 6,661 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae Coleg Harlech yn cynnwys cyfadeilad gweinyddol a theatr llawn cymeriad, llyfrgell, ystafell gynadledda, nifer o ystafelloedd darlithio ac ystafelloedd cyfrifiaduron, campfa, neuadd breswyl deg llawr, neuadd fwyta a thŷ clwb ac mae'n sefyll mewn safle mawreddog ar fryn ger castell Harlech yng Ngwynedd. Sefydlwyd y coleg ym 1927 fel coleg addysg bellach i'r rheini o gefndir dosbarth gweithiol. Cafodd ei werthu i brynwr preifat yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafodd ei ddodrefn eu tynnu ac mae bellach ar werth eto.

### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

Mae Coleg Harlech yn gysyniad unigryw gyda hanes unigryw sydd wedi'i osod mewn lleoliad hanesyddol unigryw; mae'n drysor cenedlaethol Cymreig sydd yn y broses o gael ei ddatgymalu a'i werthu fesul adeilad i'r cynigydd uchaf er mwyn ei ddatblygu.

Bydd y byd ar ôl Covid-19 yn hollol wahanol i'r byd cyn Covid-19 yr oeddem yn gyfarwydd ag ef. Bydd economïau'n cael eu dinistrio – rydym eisoes yn gweld hynny'n dechrau digwydd, a bydd angen ailadeiladu cenhedloedd ac economïau. Mae synnwyr cyffredin yn dweud y bydd angen yr holl offer posibl, a hynny'n offer dynol ac offer adeiladu, er mwyn ailadeiladu cenhedloedd a'u heconomïau. Os caiff Coleg Harlech ei adnewyddu i'w hen ogoniant, bydd ganddo'r holl ofynion angenrheidiol ar gyfer hyfforddi ein pobl ddi-waith i ddatblygu'r holl sgiliau ymarferol, technegol a phroffesiynol sydd eu hangen i ailadeiladu strwythur ac economi ein cenedl er budd a ffyniant cyfartal pawb.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Abertawe



- Gorllewin De Cymru

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1130  
Ein cyf/Our ref KW/00756/21

Janet Finch-Saunders MS  
Chair  
Senedd Cymru Petitions Committee  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

9 February 2021

Dear Janet,

Thank you for your letter dated 21 January to Rt Hon. the Lord Elis-Thomas MS, Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism regarding Petition P-05-1130: 'The Welsh Government should re-purchase and refurbish Coleg Harlech'. I am responding as this matter falls within my portfolio.

Our understanding is that Coleg Harlech has been re-sold. Welsh Government is fully aware of concerns about the condition of the building, and the need to secure a sustainable (and appropriate) future for it. Officials in Tourism, Heritage and Sports - CADW are working closely with Gwynedd County Council and Snowdonia National Park Authority to ensure that the future of the facility is secured. All parties are committed to support and offer advice to new owner.

Yours sincerely

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 91

**P-05-1130 Dylai Llywodraeth Cymru ail-brynu ac adnewyddu Coleg Harlech, Correspondence – Deisebwyr at y Pwyllgor, 17.02.21**

/

**P-05-1130 The Welsh Government should re-purchase and refurbish Coleg Harlech, Correspondence – Petitioners to Committee, 17.02.21**

### **Tystysgrifau yn y Gymraeg i gydfynd a'r ddeiseb**

#### **Sian Ifan:**

Fel y mwyafrif o ieuenctid Blaenau Ffestiniog yn y 1960au, wnes i adael yr ysgol yn bumtheg oed i ddechrau gweithio i gyfrannu tuag at gyllid y cartref. Yn y cyfnod hynny, os oeddech yn blentyn o gartref dosbarth gweithiol, lle roedd y tad yn labrwr yn y chwarel, fel yn fy achos i, doedd dim disgwyl, nac ychwaith unrhyw anogaeth yn y cartref na'r ysgol i chwi gario'n mlaen â'ch addysg. Cael hyd i waith, o unrhyw fath, cyn gynted a phosibl felly oedd y nod - ac yn y cyfnod hynny, roedd modd symud o swydd i swydd yn ddi-drafferth, heb yr orfodaeth i ddarparu tystiolaeth o gymwysterau o unrhyw fath yn y byd. A dyna fu fy hanes, ac yn yr un cyfnod, priodais yn llawer rhy ifanc, bu i fi ysgaru yn nghanol y 1970au a symudais i Ddulyn ac yna i Gaerdydd.

Tra yn byw yn Nghaerdydd, cwrddais a'r Dr Mered Evans, roeddwn yn adnabod Merêd a'i deulu yn dda, cefais fy magwraeth cynnar yn Nhanygrisiau, ar aelwyd oedd yn yr un rhesdai a chartref teulu Merêd, tra'n sgwrsio, awgrymodd Merêd y dylwn fynd i Goleg Harlech i ail gydio yn fy addysg, doeddwn i ddim yn credu bod gen i siawns o gael fy nerbyn yno o gwbl am nad oedd gen i unrhyw gymwysterau o unrhyw fath a wnes i ddim meddwl mwy am dan yr awgrym. Yna, o fewn wythnos, ffoniodd Merêd, roedd wedi gyrru am y ffurflen gais ar fy rhan ac am i ni gwrdd eto er mwyn iddo allu rhoi'r ffurflen gais i fi. Mered oedd y person cyntaf, drwy gydol fy mywyd hyd yna, i fy annog i ail gydio yn fy addysg ac i fynegi ffydd yn fy ngallu i wneud hynny. Llenwais y ffurflen a'i gyrru i'r Coleg, cefais gyfweliad ac yn mis Medi 1977, roeddwn yn fyfyrwr preswyl yn y Coleg lle roeddwn am dreilio'r ddwy mlynedd hapusaf o fy mywyd.

Roeddwn wedi dewis i letya ar y 5ed llawr, y llawr Cymraeg, yn y Neuadd

preswyl o 10 llawr, a phan gyrhaeddais ar y tren yn Harlech roedd yna nifer o fyfyrwyr o'r ail flwyddyn, oedd hefyd yn lletya ar y 5ed llawr, yn aros amdanaf ar y platfform i'm croesawu i'r Coleg. Cydiodd un yn fy nghes a cyn pen chwinciad, roeddwn yn eistedd yn y gegin fach ar llawr 5, paned o goffi yn fy llaw, yn teimlo'n hollol gatrefol yn sgwrsio ac yn chwerthin yn nghwmni'r criw o gyfeillion newydd oedd bellach wedi llenwi'r gegin fach reit at y drws.

Erbyn diwedd y diwrnod cyntaf yna, roeddwn wedi cwrdd a chyfeillgaru a phawb ar y 5ed llawr gan gynnwys y criw o fyfyrwyr newydd fel fi fy hunan, pob un yn fyfyrwr aeddfed gyda oedrannau yn cychwyn yn eu hugeinau ac yn diweddu yn eu chwedegau, a'r cyfan ohonym â phrofiadau bywyd amrywiol o dan ein belt.

Cwrs dwy flynedd oedd y cwrs diploma yn y Coleg ac ar ddiwedd y dwy mlynedd, a chyn belled a bod yr arholiadau terfynol yn cael eu pasio, byddai'r myfyrwyr yn gymwys i gael y Diploma a oedd yn gyfystyr a dwy lefel A. a dyna oedd yr allwedd a fyddai'n agor y drws i allu cario'n mlaen ag addysg uwch mewn prifysgol.

Dewisais Atudiaethau Cymraeg fel pwnc i astudio yn y Coleg, gyda'r annwyl [REDACTED] yn ddarlithydd Llenyddiaeth Cymraeg arnaf, a'r amryddawn [REDACTED] a'r [REDACTED] yn ddarlithwyr yn yr amrywiol elfennau o hanes oedd yn berthnasol i'r cwrs.

Wnes fwynhau pob eiliad o'r darlithoedd a'r trafodaethau yn y dosbarth ac fe cefais flas ar ddysgu fel na gefais erioed yn yr ysgol, a doedd y dysgu a'r broses o agor ffiniau ym mhob cornelyn o'r ymennydd ddim yn diweddu yn y dosbarth, roedd cymdeithasu a thrafod pob math o bynciau gyda myfyrwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Rhai o Loegr, yr Alban, ac Iwerddon ac o Batagonia hyd yn oed, yn agoriad llygaid ac yn addysg dibrisiadwy yn ei hunan, ac roedd y coleg yn unigryw yn y ffaith iddo fod yn ddigon bach i wneud i ni gyd, boed i ni fod yn fyfyrwyr, darlithwyr neu staff, deimlo i ni gyd fod yn rhan o deulu clos

Daeth y dwy flynedd i ben yn llawer rhy gyflym, cefais fy niploma ac es i'r brifysgol yn Aberystwyth i astudio drama a hanes Cymru. Yn ddiweddarach, enillais ol-radd MBA mewn Rheoli Twristiaeth yn Ngholeg y Drindod Caerfyrddin.

Oni bai am y Dr Merêd Evans, byddwn byth wedi cael y fraint a'r pleser o fod yn fyfyrwr yn Ngholeg Harlech, ac onibai am Coleg Harlech, byddwn byth wedi mynd i'r brifysgol yn aberystwyth ac wedi hynny i ddilyn cwrs ôl-radd yn y Drindod yn Nghaerfyrddin. Doedd petha felna ddim yn digwydd i rhywun fel fi, plentyn o'r dosbarth gweithiol oedd wedi gorfod gadael yr ysgol yn 15 oed heb fawr o addysg i son amdano.

Gelwid Coleg Harlech yn "Goleg yr Ail Gynnig" ond i aelodau o'r dosbarth gweithiol a amddifadwyd o addysg teilwng tra yn yr ysgol, Coleg Harlech, mewn gwirionedd, oedd eu "cyfle cyntaf" am addysg teilwng a fyddai'n gallu cyfoethogi a gwella eu byd. Gan ei fod, ei hunan, yn blentyn i chwarelwr, roedd y Dr Meredydd Evans yn deall yn iawn faint mor bwysic ac unigryw oedd Coleg Harlech ac dwi'n sicr, petai'n gweld y trybeini mae'r Coleg ynddo ar hyn o bryd, byddai'n troi yn ei fedd.

Mae'n anodd credu fod methiant rheolaeth wedi achosi i Goleg Harlech gael ei gau a'i werthu o gwbl - ac am bris afresymol o rhad tra, ar yr un adeg,, roedd £6miliwn o arian cyhoeddus yn cael ei wario ar bont fechan i groesi'r ffôs rhwng y maes parcio a chastell Harlech er mwyn gwella'r profiad o ymweld a'r castell i ymwelwyr! Mae Coleg Harlech a'r difreintiedig yn Nghymru yn haeddu gwell a dylai Llywodraeth Cymru ail brynu'r Coleg a'r theatr yn ô yn ddi-oedl ar gyfer dibenion pobl Cymru.

### **Dewi Prysor (Williams)**

Mae Coleg Harlech yn haeddu Ail-Gyfle!

“Dwi’n nabod cymaint o bobl a fu mor lwcus i gael y cymorth, gwerth, cyfle a’r budd yr oedd Coleg Harlech yn ei gynnig. Dwi’n un o’r bobl hynny. Mi wnaeth Coleg Harlech newid llwybrau cannoedd o fywydau, gan roi ailgyfle i oedolion oedd wedi methu’r trêen academaidd oherwydd cefndir neu amgylchiadau personol a.y.b. – neu jysd erioed wedi meddwl am y peth pan oedd y trêen yn gadael y platfform. Dwi’n un o’r bobl yma hefyd – oedolion oedd eisiau ail-gyfle, eisiau ffordd a ail-fynediad i addysg. Ond heb gymwysterau i gael mynediad i’r sefydliadau addysg, roedd y drysau i gyd ar gau.

Diolch bod Coleg Harlech yno, sefydliad unigryw yng Nghymru, oedd yn cynnig

yr addysg a chymwysterau oedd ei angen i bontio rhwng Ysgol Uwchradd a Prifysgol. Roedd cael Diploma Prifysgol Cymru gan Coleg Harlech yn cyfateb i Lefel A yr ysgolion, ac yn ein caniatáu i ymgeisio i fynd i Brifysgol, a cael ein derbyn, a chael bwrw mlaen yn ein diddordebau academaidd a cael ehangu gorwelion. Sut yn y byd y gellid caeu sefydliad fel hwn?

Roedd pobl yn dod i Coleg Harlech o bob cwr o Gymru ac o ardaloedd gwahanol o Brydain, pob rhan o Iwerddon – ac yn bellach hefyd, o lefydd fel Patagonia a Mozambique. Nid yn unig roedd budd academaidd a phersonol i'w gael yng Ngholeg Harlech, ond roedd pawb yn gwneud ffrindiau o bob cwr o'r byd – llawer ohonynt yn ffrindiau agos sydd yn dal mewn cysylltiad heddiw. Roeddau ni'n deulu mawr lliwgar yng Ngholeg Harlech, pobl o bob lliw a llun a iaith a chefnidir a rhywioldeb a chredoau, yn deulu aml-ddiwylliannol. Mae'r atgofion yn fyw o hyd.

Yn 1997 ro'n i wedi bod yn byw mewn fflats a lojings a soffas ffrindiau am flwyddyn neu ddwy. Gwnaeth hyn i fi feddwl be o'n i isio'i wneud efo fy mywyd. Wedi gweithio yn y diwydiant adeiladu am flynyddoedd yn y gorffennol, roedd fy meddwl yn crwydro mwy a mwy at y byd creadigol. A'r mwya'r o'n i'n meddwl am y peth, y mwya rhwystredig ro'n i'n mynd – achos doeddwn i ddim yn gweld bod unrhyw ffordd i wireddu'r freuddwyd. Roedd y rhwystredigaeth wedi troi yn anobaith, ac mi allai pethau fod wedi troi yn dywyll yn fy myd. Does dim byd gwaeth nag edrych yn ôl a difaru o hyd ac o hyd, yn gofyn yr un hen gwestiwn, lle fyddwn i rwan os fyswn i wedi neidio ar y trê academaidd hwnnw yn holl flynyddoedd yn ôl.

Ac ar ddechrau mis Medi 1997 daeth cnoc ar ddrws fy fflat. [REDACTED] oedd yno, fy ffrind o'r fflat uwchben. Roedd hi'n cynnig dodrefn i fi. Doedd hi ddim eu hangen nhw, gan ei bod hi'n symud allan, wedi cael ei derbyn i Coleg Harlech. Roeddwn i wedi clywed am y Coleg, wrth gwrs, ond rioed wedi meddwl bod modd i rywun fynd iddo heb gymwysterau. Erbyn dallt, roedd siawns i unrhyw un geisio am gael lle yno – unrhyw un rhwng 18 a 55 oed. Ro'n i'n nesu am fy 30 oed, ac er fy mod i'n gwybod fod y tymor ar fin dechrau a byddai dim lle ar ôl, penderfynais fynd i lawr yno i drïo fy lwc. Ges i air efo [REDACTED] yn y Swyddfa, ac mi roddodd alwad i'r hanesydd [REDACTED] – un o diwtoriaid yr adran 'Hanes, Llenyddiaeth a Syniadau'. O fewn pum munud roeddwn yn ei swyddfa fo yn cael sgwrs am be o'n i isio'i wneud. "Hanes, ysgrifennu creadigol, a

gwleidyddiaeth,” medda fi. “I have just the thing for you,” atebodd [REDACTED].  
“History, Literature and Ideas.”

A dyna ni. Does gen i ddim byd ond diolch a pharch anferth tuag at [REDACTED] am fy nerbyn i Coleg Harlech. Roedd y tiwtoriaid i gyd yn ymroddedig, egwyddorol a chyfeillgar, a dwi’n ddiolchgar iawn i’r tîm Hanes, Llenyddiaeth a Syniadau – [REDACTED], [REDACTED], [REDACTED], [REDACTED] – a staff modiwlau eraill, [REDACTED] a [REDACTED], a [REDACTED] ([REDACTED] ddysgodd ni i ddefnyddio cyfrifiadur). A staff y swyddfa a’r cantîn. Diolch i bawb am yr atgofion, yr hwyl a’r agor llenni.

Cyrsiau un flwyddyn o hyd oedd erbyn yr adeg roeddwn i yn y Coleg, ac yn 1998 gefais fy Diploma Prifysgol Cymru yn Hanes, Llenyddiaeth a Syniadau, a cael fy nerbyn i Aberystwyth. Ond ym mis Ebrill 1998 ganwyd y cyntaf o dri o feibion i [REDACTED] a minnau, a gohiriais fynd i Brifysgol Aberystwyth. Gohiriais eto yn 1999 pan anwyd yr ail fab. Ond o’r diwedd, yn 2000 fe gymerais fy lle yn Aberystwyth, ac fe symudon ni i lawr yno fel teulu am dair mlynedd. Wedyn, yn 2003 ges i fy ngradd BA Dosbarth Cyntaf yn ‘Hanes a Hanes Cymru.’ Aeth â’r gradd â fi i sawl swydd yma ac acw, gan hyd yn oed gael job fel cyflwynydd tair cyfres o Darn Bach o Hanes, a cyfres o Stori Pêl-droed Cymru i S4C! Dwi hefyd wedi gneud cyrsiau (rai i Coleg Harlech) a nosweithiau hanes, ac yn sgwennu erthyglau i gyhoeddiadau. Dwi wedi cyhoeddi 6 nofel ac un llyfr travelogue am fy nheithiau yn Ffrainc yn dilyn Cymru adeg yr Ewros. Er mai dosbarthiadau Saesneg oedd rhai [REDACTED], dwi’n siwr imi ddysgu llawer am arddull ac yn y blaen.

Fyddwn i wedi cyflawni’r pethau hyn? “Na,” fyddai fy ateb. Does dim amdani, Coleg Harlech roddodd i mi’r cyfle i astudio Hanes fy ngwlad fy hun – peth sydd yn enwedig o bwysig i ni yma yng Nghymru, lle nad ydan ni’n cael llawer ddim o’n hanes yn yr ysgolion.

Rhoddodd Coleg Harlech obaith i gymaint o bobl. Gobaith ac ailgyfle, a llwybrau newydd i i’w dilyn, a chael ehangu gorwelion. Ac wrth roi i ni’r holl bethau hyn, roedd y Coleg hefyd yn rhoi i ni brofiad arbennig iawn. Dwi’n gobeithio y gall myfyrwyr ddod i Goleg Harlech eto, i gael y gwerth a’r budd, a’r profiad, o fod yn y lle – a’r sefydliad – arbennig hwn. Dwi’n gobeithio y gall Coleg Harlech gael ail-gyfle hefyd.

**Llythyr ar gyfer sylw aelodau o'r Pwyllgor Deisebau parthed y ddeiseb a agorwyd yn gorchymyn i Lywodraeth Cymru brynu Coleg Harlech yn ôl.**

Annwyl Aelodau,

Hoffwn eich atgoffa pan agorwyd y ddeiseb dan sylw, ,mai 5,000 o lofnodion oedd y gofyn os oedd y pwnc dan sylw i'w ystyried ar gyfer trafodaeth yn Siambr y Senedd ond, yn ddiweddarach, newidiwyd y nifer o lofnodion roedd eu hangen ar ddeisebau i 10,000! Beth bynnag oedd y rhesymeg dros y newid, mae'n symudiad hollol anemocrataidd i newid y gofynion ar beth oedd yn gytundeb rhwng y deisebydd a Llywodraeth Cymru.

Gwlad bychan iawn yw Cymru gyda cwta 3 miliwn o ddinasyddion tra bod Lloegr, drws nesa, a dros 56 miliwn o ddinasyddion ond, tydi Llywodraeth San Steffan ond yn gofyn am 10,000 o lofnodion ar ddeisebau os yw pwnc i'w hystyried am drafodaeth yn Senedd San Steffan felly, mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n annheg i fynnu 10,000 o lofnodion ar ddeisebau allan o boblogaeth sy'n llawer llai na phoblogaeth Lloegr.

Mae'r ddeiseb dan sylw wedi dod i ben gyda 6,645 o lofnodion arni ac oherwydd yr anghysondeb ac anhegwch yr amlinellir uchod, rydym yn galw ar y Pwyllgor Deisebau i anrhydeddu'r cytundeb a wnaed pan agorwyd y ddeiseb ac i gytuno i'r pwnc gael ei drafod yn y Siambr fel pwnc sydd, yn amlwg, yn un pwysig i Gymru a'i phobl.

Yn gywir

Sian Ifan

Peter Evans

Padi Phillips.



## Coleg Harlech Regeneration

Some thoughts.

My simple view is that you need a successful mix of:

- Capital & Revenue (aka the budget)
- Vision and Purpose
- Sponsors and political will
- Land assembly
- People and community engagement
- Business case
- Function
- Project management

To pull off a Regeneration project.

If you think about what created the original Coleg Harlech these are the basic elements that combined. Then it was a project, so the first, third and fourth bullets were probably 'relatively' easy. Whilst now it's a would be a regeneration project, which buildings apart, means that to be successful, all the elements need to be in place, some at the outset and some in succession.

**Capital.** A successful regeneration project needs money. It needs both capital to undertake the costly stuff and revenue to pay for the immediate and the future. Too often the capital is the easy bit and the revenue is both the difficult part and the risk.

My view is that a basic regeneration of the current Coleg Site would cost about £10 / £12m.

It's crazy really, but with 'Sponsors and political will', I think that the Capital, say £12m would be relatively easy to get. For a a) Regeneration of the Coleg for learning project I would be looking to a combination of sources which would be WG and the Heritage lottery fund as well as Gwynedd and a potential Educational Institute (say Aber or Bangor for example as partners) and charities like the Theatres Trust. . For a b) Housing Regeneration project substitute a Housing Association for Educational Institute.

Revenue. Is trickier, as ALW found and presumably WEA and Coleg Harlech before it. .It's the life blood / cash flow that keeps the system alive, it can expand and contract, but it needs a minimum to keep the system viable. The greater the asset, the larger the liability and the more need for revenue and cash flow.

Budget. Both pots need to be allocated against a work programme into the relevant budgets of the organisations involved. Over the project life.

Here's a link to some evaluation on community led regeneration projects. It's not the final word, but

it's a good framework to start thinking about regeneration and engagement.

[https://laisygoedwig.org.uk/wp-](https://laisygoedwig.org.uk/wp-content/uploads/2013/12/Community_Planning_Approaches_July_13.pdf)

[content/uploads/2013/12/Community\\_Planning\\_Approaches\\_July\\_13.pdf](https://laisygoedwig.org.uk/wp-content/uploads/2013/12/Community_Planning_Approaches_July_13.pdf)

I've seen some great regeneration projects in Wales fail because they had the capital 'Rhondda life', but not the revenue ...or insufficient capital to create the conditions to generate sufficient revenue. The Red House in Merthyr was a great Regeneration project, but it looks as if recently, because of internal 'management conflicts' it's struggling. Chapter in Cardiff though as we know is a pretty amazing success. But it's Cardiff and how even it will fare post pandemic is moot.

Vision and Purpose. What's it going to do and how's it going to do it. A vital debate and one that it's vital to get right. A successful vision creates the route map to how you might do it. This needs to be debated out with the potential; community who will use, benefit, engage and often operate the asset. It also needs to be either shared with or lined up with the Sponsors and Political Will.

Let's think about what we currently have:

Options as a future for learning. There's is genuine potential (people might not like the vision and purpose) for developing a new generation of 'mini nuclear reactors' at Traws and a Space centre for 'Horizontal Space Take off' at Llanbedr. If the remaining Admin Block, Library, Theatre, Tower Block site and say the St David's site was used, it could be the eco system for a College training people in the relevant skills and qualifications needed to work in these worlds. It could be an FE Centre operating alongside this, or possibly say linked to Coleg Cambria, a residential centre in its own right. It could be a centre for Welsh language, Welsh History, Social Work, Teachers training linked to say Aber or Bangor (who I always hoped would step in and take it on), particularly because of the former ties with Aber. There may be other possibilities that I haven't thought of (Hence the need for a Community voice). Of these above the Traws and Space Centre options appeal to me, because of the link with future operating needs at scale. Airbus at Broughton for example take on 60 apprentices a year for a 5000k operation. And these are high quality, highly sought STEM roles.

Another project might be social housing and a mix of use for learning at the library, admin block and Arts and Learning at the Theatre. For me this is the most plausible future. Why? Basically because Harlech now is a different place to the one we went to in the 70's or 80's. Then, the Coleg assets apart, there was a fairly thriving small (less than 2k pop) town, with a night time economy. Now I believe that the only pub still open is the Queens. It's not I think, a particularly appealing place in the 2020's for a residential type Coleg of any sort. On the other hand Social Housing gives something back to the Community. A development could be also linked to community workshops and community ownership and use of the Library, Admin and Theatre. A social housing partner, whilst needing to be initially incentivised on the capital front, would bring its own capital contribution and also vital project management skills in managing the quality of the regeneration programme whilst the social housing was enabled and the heritage sites were regenerated. Social Housing also helps regenerate Harlech itself and is key to the vision of at least two of the local Housing Associations. Whilst there are varying degrees of quality within Social Housing organisations, basically I trust them as partners, largely because they get their own revenue stream from the relationship. I would hedge bets at the moment and say many people want it to be as it was a residential adult learning centre for the people of Wales, but it may be that there are different viable options and the community needs a clear voice in articulating this. I'd be interested in hearing what possible Senedd sponsors

think is viable and how they would play the process.

### Sponsors and political will

Juxtapose with the founders of Coleg Harlech, we don't have any – yet! They were vital then, they will be vital now. WE don't have an Irene White (for good or bad), or a Michael Sheen – yet. We do have 6.5k people who signed a petition and probably more out there. Counterbalance this though with the many voices (some loud) in the Senedd and unfortunately the community also who are either passive or don't want to unpick the CH story, or want it to quietly go away.

The 6.5k potentially gives us a voice and hopefully a debate. The debate needs to know what it is looking for which' not discounting the cost on capital and revenue' I would say is largely about connecting Vision and Purpose, with Sponsors and political will, with People and community engagement.

If the potential Senedd 'debate' took us some way on the Vision and Purpose, got us the Sponsors and Political will and led to the third as an outcome, with some commitment to putting the Harlech Regen plan into a Manifesto and someone's work programme (say WG, Gwynedd and a Housing Association) and an initial allocation of the budget funding to start toward creating project milestones and a plan, I would be very happy.

An additional possibility is if 6k people were actively willing to buy into the Vision and willing to give say £100 each to create shares for a community regeneration trust that supported the revenue of operating the library, Admin and Theatre as community assets. Then that's an initial £6m crowd sourced fund. It's bold but it can and has been done.

### Land assembly

A lot trickier than it was when the initial ALW site was picked up for a song. Crown Lodge and the Wardens House have long gone. Some parts of the second sale (amenity centre) have started development. I think that the debate needs to mandate a process that effectively starts an immediate and long term process of land assembly. I think now it's a compulsory purchase order on the Library, Admin Block, Theatre as well as the St Dai's site and former Block. Compulsory purchase isn't easy and Councils don't like doing them, consequently Political Will is needed. The longer term, depending on the purpose of the site, is then part of the future. Much as the old Coleg itself grew organically as time and opportunity flowed. For example if it was a residential college, would you purchase the former Rum Hole as a Student Amenity site? The current Amenity centre build in the 80's was sold and I believe work has started to transform it into something tangible. Good luck to it, but it might be a future possible asset target too.

### People and community engagement

You can't untangle vision and purpose, sponsors and political will from people and community engagement. Once you have captured the political will to the initial vision of 'something must be done' and a few ideas that test future viability of purpose, the people in the community must engage to interrogate and be part of the decision around the future.

BUT, the purpose that comes out of this must be viable. If it's a predominantly housing association

play, supporting a community arts centre fine, but is the demand proven in the community and more importantly has the community the skills and stamina to operate management effectively and generate future revenue around purpose. If not it's just an AWL albatross, with no options other than constantly testing the private sector and hoping a commercial solution comes forward. The same applies to a future residential college. There are milestones in developing a regeneration programme and community engagement is a very early part of this process. The link above gives some examples of how this has been tackled.

We mustn't discount community fatigue either. A lot of good smart, people will have been fighting for the initial vision, or some version of it, for Coleg Harlech for 30 years. Many of the voices that have been through these battles will have become cynical or old or tired. The only tangible example of a community response to date has been Sheila Maxwell's 'Arc' of CH at the Old Library and whilst this is a wonderful achievement, it's sadly not a hub of activism around revival and lessons need to be taken from this. There have also been two large and costly examples of studies that look to provide the answers that this petition also seeks. One was the WEA ALW led Coleg Harlech plan: [https://www.adultlearning.wales/UserFiles/Files/Public\\_Documents/Feasibility\\_Study/Coleg\\_Harlech\\_Site\\_Feasibility\\_Study.pdf](https://www.adultlearning.wales/UserFiles/Files/Public_Documents/Feasibility_Study/Coleg_Harlech_Site_Feasibility_Study.pdf)

and the second, the Harlech Regeneration plan.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Businesses/Documents-Busnes/Regeneration/Harlech-Regeneration-Consultation-Panels.pdf>

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Businesses/Documents-Busnes/Regeneration/Harlech/Harlech-Strategic-Guide.pdf>

I'm not aware of how these were developed and delivered but nothing feels as if it's been achieved by either and I'm guessing that because of lack of Vision and Purpose and Sponsors and political will and because this is a small town in a low population region, where resource and human capital is in short supply. What's different about us now, to where we were recently? Well really only that 'nothing has been done and we have 6500 signatures on a petition. But the people who don't want to do anything and have the political will to stop anything being done will point to the work, time and money above. We believe that something should be done that honours the past, because it's important to us and hopefully 6.5k people. Not all will feel like this and I the community doesn't it's another failed initiative costing public resource.

This is for me another treason pointing toward a Social Housing solution.

### **Business case**

The business case is essential, but (although you might need to start a 5 case plan early in order to catch budget) it is a process that is dynamic and flows from the combinations above. It proves the viability of the Function that is decided on and provides a route map and milestones in achieving this. Once everything is up and running, then it becomes 'business as usual' and subject to effective management by

the Board and management of the operation. Subject if you want it to and its purpose, future reviews on achieving outcomes and benefits realisation.

Function Simple to say. Form follows function. Difficult to do, However as long as the processes above are effectively determined, managed and evolutionary then you have an entity which should survive for say 20 years.

Project management The glue that sticks it all together, once the process is agreed and the vision underway. There are phase's, first the organisation of the campaign, then the public awareness, transfer to 'project owners', then the build and then the operation. Again another reason I like Housing Associations. Often they are great at this. <http://www.pentan.co.uk/project/bargoed-library/>

And there are companies like: <https://www.themeans.co.uk/contact-us>

<http://www.theurbanists.net/> Who are good at project managing the build elements of regeneration in partnership with a housing association? But all this would be down to tender and future choice.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Eitem 2.13

**P-05-1131 Rhoi terfyn ar unwaith ar waith carthu oddi ar arfordir Gŵyr, nes y ceir gwerthusiad o'r effeithiau andwyol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kerry Lord, ar ôl casglu cyfanswm o 63 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Yn dilyn dechrau'r gwaith carthu ym Mae Rhosili, bu tywod yn disbyddu i raddau sylweddol a difrifol ar draeth cyfagos Rhosili. Mae'r ardal hon – sydd o bwysigrwydd rhyngwladol – yn cynnwys systemau twyni cysylltiedig y bydd disbyddu tywod hefyd yn effeithio'n andwyol arnynt. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi terfyn ar waith carthu ar unwaith nes y cynhelir adolygiad gwyddonol o'r disbyddu tywod a'r hyn sydd, o bosibl, yn ei achosi, er mwyn osgoi difrod parhaol a cholli cynefinoedd.

### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd, er gwaethaf y tywydd cymharol fwyn dros dymor yr haf 2020 hyd yn hyn, mae lefelau tywod ar draeth Rhosili wedi disbyddu'n ddifrifol. At hynny, ymddengys fod niferoedd sylweddol uwch o weddillion cregyn molysgiaid (fel cocos, cregyn gleision, cyllyll môr, wystrys, ac ati) yn ogystal â chynnydd enfawr yn y niwed i sêr môr. Gyda thymor stormydd yr hydref a'r gaeaf ar y gweill, gallai'r sefyllfa ddatblygu i fod yn drychinebus i'r ecosystemau hynod fregus sy'n dibynnu ar ddyddodion tywod naturiol. Er y gallai fod yn gyd-ddigwyddiad bod gwaith carthu wedi digwydd ar yr un pryd â disbyddu tywod anarferol o helaeth yn Rhosili, mae'n hanfodol bod y gwaith carthu yn cael ei ohirio ar unwaith fel bod cyfle i astudiaeth wyddonol swyddogol werthuso'r achosion tebygol.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gŵyr
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1131  
Ein cyf/Our ref LG/00129/21

Janet Finch-Saunders AS  
Chair of the petitions committee

11th Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Ionawr am ddeiseb sy'n nodi - "Yn dilyn dechrau'r gwaith carthu ym Mae Rhosili, bu tywod yn disbyddu i raddau sylweddol a difrifol ar draeth cyfagos Rhosili." Mae'r ddeiseb yn galw ar "Lywodraeth Cymru i roi terfyn ar waith carthu ar unwaith nes y cynhelir adolygiad gwyddonol o'r disbyddu tywod a'r hyn sydd, o bosibl, yn ei achosi" ac yn nodi yr ymddengys fod niferoedd sylweddol uwch o weddillion cregyn molysgiaid a "gallai'r sefyllfa ddatblygu i fod yn drychinebus i'r ecosystemau hynod fregus."

Caiff gwaith carthu agregau morol ei drwyddedu'n llym gan Dîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â darpariaethau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Rhoddir trwyddedau yn amodol ar asesiad o'r effaith amgylcheddol a hefyd, os yw'n briodol, astudiaethau effaith arfordirol. Defnyddir amodau trwydded i sicrhau cydymffurfiaeth a monitro a gorfodir y rhain gan swyddogion gorfodi morol Llywodraeth Cymru.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw amodau trwydded, mae'n ofynnol i gychod carthu agregol gael Systemau Monitro Electronig (EMS) ar eu byrddau (blychau du) sy'n cael eu monitro'n ddyddiol gan Ystad y Goron gyda'r canlyniadau'n cael eu hanfon at Dîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r safle carthu agregol agosaf ar Fanc Nobel (safle A476); tua 19km i'r de-orllewin lle mae gan Llanelli Sand Dredging Ltd (LSD) drwydded forol i echdynnu hyd at 2,000,000m tunnell o dywod y flwyddyn tan 2023. Adnewyddwyd y drwydded yn 2016 a rhoddwyd y drwydded hon gyntaf yn 2006 yn dilyn Ymchwiliad Cyhoeddus. Nid oes unrhyw waith carthu agregau morol yn digwydd ger traeth Rhosili, er bod y cwch LSD "Sospan Dau" yn angori ym mae Rhosili wrth aros i'r llanw ddychwelyd i'w angorfa lanio ym Mhwl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Gwnaed gwaith a chynhaliwyd astudiaethau sylweddol yn gysylltiedig ag adolygiad o bolisi carthu agregau ar ddiwedd y 1990au ar adnoddau tywod, cefnforeg a bioleg rhanbarth Môr Hafren. Arweiniodd hyn at bolisi'n cefnogi mwy o garthu ar y môr, a dyna lle mae'n digwydd yn awr. Mae'r rhain ac astudiaethau ac adroddiadau eraill wedi ystyried effeithiau amgylcheddol ac arfordirol gan gynnwys [adolygiad technegol](#) o ganlyniadau monitro carthu agregol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016.

Y ddealltwriaeth bresennol yw bod hydrodynameg Môr Hafren yn achosi symudiad gwaddod cyfyngedig o'r gorllewin i'r dwyrain mewn dyfroedd dwfn gyda rhywfaint o symudiad ochrol mewn dyfroedd mwy bas yn nes at yr arfordir. Mae gwaith monitro safle banc Nobel yn dangos dim ond symudiad gwaddodion lleol ar draws yr ardal. Nid oes unrhyw waith ymchwil na monitro yn dangos unrhyw gysylltiad achosol â'r arfordir, ac ni ddisgwylid hyn oherwydd natur y prosesau ffisegol sydd ar waith.

Yn unol â hynny, nid yw'r cysylltiad a wneir gan y deisebwyr rhwng carthu agregol â symudiad tywod arfordirol yn cael ei gefnogi gan y dystiolaeth sydd ar gael.

Mae'r ddeiseb hefyd yn cyfeirio at gynnydd sylweddol mewn gweddillion cregyn molysgiaid a sêr môr yn cael eu golchi i'r lan, sy'n ymddangos yn gysylltiedig â stormydd ac a allai gael effaith ecolegol. Yn aml, yn sgil stormydd, mae pysgod cregyn yn cael eu golchi i'r lan - yn enwedig ar draethau'r de-orllewin o fae Caerfyrddin tua'r dwyrain i Borthcawl a thu hwnt. Y prif rywogaethau sy'n tirio yw cylllell fôr (*Ensis siliqua* ac *E arcuatus*), cragen blisgyn (*Pharus legumen*), rhythwr y tywod (*Mya arenaria*), cragen dyfrgi (*Iutraria lutraria*), cocosen bigog (*Acanthocardia echinata*), rhywogaethau cregyn cylchog bach eraill, cocos cyffredin, cregyn gleision, draenog môr tyrchol (*Echnocardium cordatum*) ac yn ystod y gwanwyn, sêr môr cyffredin. Mae'r cregyn wystrys yn weddillion sy'n dyddio i ddiwedd y 1800au pan oedd y rhywogaethau yn fwy toreithiog yn lleol. Mae'r holl rywogaethau hyn wedi'u gwasgaru'n eang, yn doreithiog ac mae'r poblogaethau'n byw ac yn cael eu haddasu yn ôl yr amgylchedd morol symudol. Nid ystyrir bod golchi i'r lan ar ôl stormydd yn cynrychioli effeithiau ecolegol sylweddol.

Mae'r dystiolaeth felly'n awgrymu nad yw'r hyn y sylwyd arnynt yn Rhosili yn gysylltiedig â charthu agregol ond, yn hytrach, maent yn ymwneud â stormydd y gaeaf.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-05-1131 Immediate cessation of dredging operations off the Gower coast pending evaluation of adverse effects, Correspondence – Petitioner to Committee, 23.02.21**

Thank you very much for your reply and for the inclusion of the Minister's response.

However, we strongly believe that the Minister may have been misled when requesting information for her response. Our family has the benefit of a static caravan directly overlooking Rhossili beach and bay, at Hillend. As occasional stargazers, we also have the use of a powerful telescope and binoculars with which we have observed the vessel "Sospan Dau" on numerous occasions, apparently dredging within the bay. The vessel has frequently been witnessed in position approximately mid-point between Worm's Head and Burry Holmes for many hours, well in excess of the necessary inter-tidal times which are claimed. At these times, significant turbulence has been obvious in the water surrounding the vessel, indicating a high likelihood that the dredging process has been underway. The vessel has also appeared to be lower in the water at the end of its stints in the bay, as deduced from observation of the plimsoll line.

As a qualified skipper, I have a good understanding of tidal streams and vessel movement. I have witnessed Sospan Dau apparently returning from the Nobel Bank and anchoring. We have also noted other occasions when, as stated above, the vessel has emerged from the Loughor estuary and spent many hours in Rhossili Bay before returning. At these times, the same turbulence has been observed around the vessel.

I realise that all commercial vessels are required to be equipped with AIS transponders which record the vessel details, including course, activity, speed, bearing, etc. However, these can easily be programmed with insufficient or incorrect information, or even switched off entirely, although I am not suggesting that the vessel's master has done so. The point is that AIS information cannot, solely, be relied upon as an accurate basis for accountability. I do not have access to historical AIS information regarding the vessel's movements, as this requires an expensive paid subscription, but our family, along with very many other residents and staff at Hillend have been under no illusion that dredging has been taking place in the bay. The concomitant denuding of the beach's sand is such that anecdotal estimates by those with decades of intimate knowledge of the area place the level at the lowest ever witnessed.

Regarding the influence of winter storms, destruction of shellfish and removal of sand does indeed occur during these events. However, the sand is just as likely to be deposited as removed, depending on the nature of the weather event. Our observations of shellfish casualties and devastatingly low sand levels were made during the spring, summer and autumn of 2020, as and when COVID restrictions permitted access to the beach.

I urge the committee to investigate the issues raised with urgency. If our observations of turbulence and load can be proven to be caused by some other factors, then I apologise for taking up the committee's time, but we remain

convinced in the likelihood that dredging has been taking place in Rhossili Bay and that this has led to the severe reduction of sand and destruction of shellfish habitat as originally stated in the petition.

With kind regards,

### **P-05-1132 Cychwyn Ymchwiliad Barnwrol Annibynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Y Cyngorydd Mike Powell, ar ôl casglu cyfanswm o XX lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Ar 15-17 Ionawr 2019, fe wnaeth adroddiad gan Goleg Brenhinol y Bydwagedd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr daflu goleuni ar ddigwyddiadau difrifol a gofidus yn y ddarpariaeth famolaeth o dan reolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Rydym yn ofyn am Ymchwiliad Barnwrol i weld sut y digwyddodd y methiant sylweddol yng ngwasanaethau mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Rydym yn galw am yr Ymchwiliad Barnwrol hwn gan nad yw o fewn cylch gwaith yr adolygiad y gofynnodd Senedd Cymru amdano gan y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth i ddarganfod beth a achosodd y methiant hwn.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

"Cafodd yr aseswyr fod y gwasanaeth yn gweithio o dan bwysau eithafol ac o dan arweinyddiaeth glinigol a rheoli nad oedd o'r safon orau. Roedd y canfyddiad gan y Bwrdd Iechyd o danadrodd am ddigwyddiadau difrifol wedi arwain at fwy o graffu mewnol ac allanol, sy'n dangos nad oedd prosesau llywodraethu sylfaenol wedi'u rhoi ar waith yn briodol eto. Roedd disgwyl hefyd y byddai'r gwasanaeth yn mynd ati'n fuan i gyfuno dwy uned ar wahân dan arweiniad meddyg ymgynghorol ar un safle ag uned annibynnol dan arweiniad bydwagedd ar y safle arall, heb dystiolaeth bod timau clinigol yn ymwneud â'r penderfyniad hwn a'r broses ar ei gyfer ac yn ei gefnogi. Ar ben hyn, gwelwyd bod nifer o swyddi bydwagedd heb eu llenwi, arweinyddiaeth glinigol nad oedd o'r safon orau, defnydd sylweddol o staff meddygol locwm

ar lefel meddygon iau a meddygon ymgynghorol a diffyg safonau ymarfer sefydledig."

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/adroddiad-adolygiad-o-wasanaethau-mamolaeth-bwrdd-iechyd-cwm- taf.pdf>

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pontypridd
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref Petition P-05-1132  
Ein cyf/Our ref VG/01585/21

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau

10 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Ionawr.

Nodwyd pryderon eang eu cwmpas yn adroddiad adolygiad annibynnol Coleg Brenhinol y Bydwagedd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr o wasanaethau mamolaeth yng nghyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, ynghylch ansawdd y gofal. Mynegwyd cryn bryder a chodwyd rhai cwestiynau hefyd, fodd bynnag, ynghylch effeithiolrwydd arweiniad a llywodraethiant y bwrdd yn ehangach.

Roedd y pryderon ehangach a amlygwyd yn yr adroddiad ynghylch llywodraethiant yn destun pryder difrifol imi ac ystyriais fod y rhain yn ffactor pwysig a oedd wedi cyfrannu at y methiannau a oedd wedi dod i'r amlwg mewn gwasanaethau mamolaeth. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch llywodraethu ansawdd, cywirdeb data, adrodd am ddigwyddiadau difrifol ac, yn gwbl allweddol, arweinyddiaeth a llywodraethiant sefydliadol.

Mynegwyd yr un lefel o bryder drwy'r grŵp teirochrog ar uwchgyfeirio ac ymyrryd, sy'n cynnwys fy swyddogion i, Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, mewn perthynas â threfniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys materion a ddaeth i'w amlwg yn sgil adrodd am ddigwyddiadau difrifol ac ymweliadau gan reoleiddwyr. O ganlyniad, derbyniais gyngor y grŵp teirochrog i gynyddu'r weithdrefn uwchgyfeirio yn y sefydliad yn gyffredinol i ymyriadau wedi'u targedu ym mis Ebrill 2019, gan roi gwasanaethau mamolaeth o dan fesurau arbennig ar yr un pryd.

Mae hefyd yn bwysig nodi, cyn hyn, fod y cyn-Fwrdd Iechyd wedi cael ei roi o dan drefniadau monitro uwch (lefel 2) y fframwaith uwchgyfeirio ym mis Ionawr 2019, yn dilyn cyngor gan gyfarfod eithriadol o'r grŵp teirochrog. Roedd hyn o ganlyniad i nifer o faterion, gan gynnwys gwasanaethau mamolaeth, ond hefyd feysydd eraill o bryder a oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â llywodraethiant sefydliadol.

Yn ogystal â'r camau penodol a gymerais yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Colegau Brenhinol i geisio gwelliannau a sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau mamolaeth a llywodraethiant y Bwrdd ar unwaith, cadarnhaodd y rheoleiddwyr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru, y byddent yn cynnal adolygiad ar y cyd o'r trefniadau llywodraethu ansawdd a oedd ar waith yn y Bwrdd Iechyd. Adroddwyd ar hyn ym mis

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 120**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tachwedd 2019 a chadarnhawyd bod nifer o wendidau sylfaenol mewn llywodraethiant mewn perthynas â diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal. Mynegwyd pryder bod y gwendidau yn peryglu gallu'r Bwrdd Iechyd i nodi problemau mewn perthynas ag ansawdd y gofal a diogelwch cleifion ac i ymateb i'r problemau hynny.

Canfuwyd, er bod pwyslais cadarn wedi bod ar gynnal balans ariannol a bodloni targedau allweddol, fod llai o sylw wedi'i roi i ansawdd a diogelwch y gwasanaethau yn gyffredinol. Tynnwyd sylw at yr angen am arweinyddiaeth gryfach ac ehangach mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion. Un agwedd a achosodd bryder gwirioneddol oedd y diwylliant o ofn a phwyntio bys y canfuwyd ei fod yn bodoli mewn rhannau o'r sefydliad, ac roedd hyn wedi atal staff rhag codi llais a mynegi pryderon. Roedd y diwylliant hwn yn debyg i'r hyn a ganfuwyd mewn gwasanaethau mamolaeth.

Yn fwy cyffredinol, daeth yr adolygiad o hyd i fylchau mewn trefniadau llywodraethiant allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli a nodi risgiau, ac o ran y ddarpariaeth o wybodaeth i gefnogi gwaith craffu effeithiol gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Nodwyd hefyd fod angen gwella'r ffordd yr oedd digwyddiadau yn cael eu dosbarthu yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer adrodd arnynt.

Er bod yr adolygiad yn tynnu sylw at nifer sylweddol o bryderon, nodwyd hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Tynnwyd sylw hefyd at yr effaith yr oedd yr arweinyddiaeth newydd yn dechrau ei chael wrth fynd i'r afael â'r hyn a oedd yn set sylweddol o heriau. Mae Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad dilynol i asesu cynnydd.

Mae'r holl faterion hyn yn awgrymu bod gwendidau sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethiant y sefydliad. Yn eu tro, gwnaeth y gwendiadau hynny olygu bod y Bwrdd wedi methu â sylwi ar broblemau gyda gwasanaethau mamolaeth. Yn anffodus, felly, nid aethpwyd i'r afael â'r rhain cyn i bryderon sylweddol godi mewn perthynas ag ansawdd y gofal. Rhaid inni ganolbwyntio yn awr ar sicrhau bod gwelliannau cynaliadwy yn cael eu gwneud i sicrhau na all y Bwrdd byth eto fod mor ddal i lefel gyffelyb o bryder ynghylch unrhyw un o'i wasanaethau.

Yn gywir,



